YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLV. HYDREF, 1945. RHIF 10.

Atgofion.

Gan Mrs. A. JONES REES, Llanbedr.

HYFRYDWCH mawr oedd gweled yr hybarch dad o Gwmiago yn y Cyrddau Blynyddol yng Nghapel y Groes ym mis Awst, a'i gefn mor union, a'i lais mor gryf, a'i ysbryd mor ieuanc ag erioed ar waethaf ei bum mlwydd a phedwar ugain. Perai i ni deimlo nad yw'r hen fyd yma mor annrhugarog ag y'i hystyrir gennym wedi'r cwbl. Boed iddo lawer o flynyddoedd llawn o hawddfyd eto yw dymuniad ei lu o gyfeillion.

Rhyfedd fel y mae cwrdd â hen ffrindiau'n dwyn i'r côf ddigwyddiadau bore oes, rhai yn ysmala, eraill yn fwy difrifol. Saif un digwyddiad yn glir iawn yn fy nghôf, mewn cysylltiad â mynd i'r capel ar fore Sul, pan oeddwn ieuanc yn y Cribyn.

Bore tywyll, garw ydoedd, y gwynt yn chwythu a'r glaw yn disgyn yn ffrydiau. Yr oedd yn bur dywyll pan ddeffröais, ond o edrych ar y cloc gwelwn ei bod yn naw o'r gloch. Aeth yn râs ofnadwy i ddod i ben a mynd i'r capel erbyn deg. Nid edrychais ar y cloc yr ail waith. Ar y ffordd i'r capel chwythai'r gwynt yn fy wyneb nes hanner fy nallu. Nid oedd un dyn i'w weled ar yr heol, ond ni ddisgwyliwn weled llawer ar y fath fore.

Cyrhaeddais y capel, euthum i fewn, agorais yr organ fel arfer. (Fi oedd yr organydd ar y pryd). Yn union, dyna Mr. Evans yn offrymu gweddi. Ar ôl iddo orffen, dyna'r bobl yn codi a mynd allan. Edrychwn i yn dwp arnynt, a chofiaf i mi ofyn i un o'r diaconiaid, "Ble'r y'ch chi'n mynd?" "Adre," oedd yr ateb. Erbyn cael goleuni ar bethau, tebyg fod ein cloc ni wedi aros am naw, a digon tebyg ei bod yn ddeg pan ddeffröais, ond gan nad edrychais ar y cloc yr ail waith, ni sylwais ei fod wedi aros, ac nid oedd gennyf yr un syniad fod dim allan o le hyd nes cyrraedd y capel a gweld y bobl yn mynd adref.

'Rwy'n credu i mi weld gwên ddireidus yn ymdaenu'n llechwraidd dros wyneb Mr. Evans wrth fynd allan, ond gwnai ei orau i'w chelu. Oni chauo Mr. Evans ei lygaid, ofer iddo geisio cuddio gwên.

Dro arall, ar ddydd ein cyrddau diolchgarwch am y cynhaeaf, bu tipyn o amryfusedd ynglyn â goleuo'r capel. Nid oedd trydan na nwy wedi cyrraedd pentref y Cribyn yr adeg honno ac, ysywaeth, nid ydynt eto. Lamp fawr (chandelier y'i gelwid) yn hongian o'r top, tua chanol y capel, oedd yn goleuo'r adeilad, gyda lampau bychain yma ac acw ar y muriau, yn llosgi paraffin pob un ohonynt. Goleuid y pulpud gan ddwy gannwyll, un ar bob tu.

Euthum i'r capel yn gynnar er mwyn cael tro ar yr organ cyn dechrau'r cyfarfod. Yr oedd yr hen chwaer a ofalai am y capel yno o'm blaen yn rhoi'r lampau yn barod. Yn y man aeth i drwsio'r chandelier. Tynnodd hi i lawr er mwyn cael gwell mantais i'w thrafod, ond tynnodd ormod nes daeth y chandelier allan o'r soced, a chwympodd yn garn i'r llawr gyda thrwst ofnadwy. Torrodd rhai o'r lampau, ac yr oedd gwydr yn ddarnau dros y lle, a daeth cryn dipyn o'r olew allan ar hyd y llawr.

Cafodd yr hen chwaer ofn difrifol a siom enbyd hefyd. Ni wyddai beth i'w wneud. Llefai fel plentyn. Hen gymeriad ffein, diniwed iawn ydoedd, heb radd o falais yn ei mynwes, na dymuniad drwg i neb. Dihangodd rhag gofidiau'r ddaear ers blynyddoedd bellach, ac y mae ei lle yn wag yn y pentref.

Dechreuodd y bobl grynhoi i'r capel cyn hir, a helpwyd yr hen chwaer i roi'r chandelier yn ôl yn ei soced a chynneu'r lampau oedd heb dorri, a sychwyd yr olew oddiar y llawr mor llwyr ag y gellid, ond amhosibl dileu arogl y paraffin o'r awyrgylch. Ni welodd Mr. Evans na'r pregethwr dieithr (ni chofiaf pwy ydoedd) yr annibendod hynny, ond edrychai'r ddau mewn tipyn o benbleth wrth ddod i fewn. Hwyrach iddynt feddwl fod yno rywun yn arogldarthu er anrhydedd iddynt hwy, a'i fod wedi dewis paraffin fel arogldarth. Ni chofiaf destun y bregeth na dim o'i chynnwys, ond cofiaf i mi gael rhyddhad i'r ysgyfaint i fynd trwy'r drws a chael anadlu awyr iach yr hwyrddydd unwaith yn rhagor. Yn ôl pob hanes, dyna brofiad y ddiadell yn gyffredinol, a'r ddau fugail yn ogystal.

GWEDDI.—A fyddo mewn pryder gan amheuon ynghylch gweddi, bydd y ddeuair syml, "Ein Tad," os gall gredu'n wirioneddol unwaith yn eu holl gyfoeth a'u dyfnder, yn gyrru ymaith yr amheuon mewn eiliad, ac ymddengys gweddi fel y peth mwyaf naturiol a rhesymol o bob gweithred.—*Charles Kingsley.*

Profiadau Hen Bererin.

Gan y Parchedig D. Delta Evans, Ilford, Essex.

Wedi pedair blynedd o gyrchoedd dinistriol bron bob nos gan awyrennau'r gelyn dros fy ardal yng nghyffiniau Llundain, dechreuodd y bomiau hedeg ar eu gwaith dychrynllyd, a gwneuthur chwalfa ar ôl chwalfa. Drylliwyd miloedd o gartrefi a lladdwyd a chlwyfwyd cannoedd o bobl. Tua diwedd mis Gorffennaf, 1944, daeth fy nhro innau. Achubwyd fy mywyd trwy wyrth, ond lladdwyd llawer o'm cymdogion a'm ceraint. Y pryd hynny nid oeddwn wedi gorwedd mewn gwely nac wedi bod allan o'r tŷ ers saith wythnos. Aethpwyd â mi i Gymru, ac yno deuthum ataf fy hun ymhen ychydig ddyddiau. Tua diwedd mis Medi dychwelais i'm "cartref" er mwyn ceisio achub rhai o'm "trysorau." Yr oedd y tŷ wedi cael trwsio tipyn arno, er nad oedd gan bedwar ohonom ddim ond un ystafell gymwys i drigo ynddi. Am rai wythnosau bûm yn ddiwyd yn trefnu pethau, yn eu casglu at ei gilydd a'u hanfon i ofal cyfaill yng Nghymru. Tua diwedd y flwyddyn, daeth chwalfa waeth fyth, ac ar Ionawr 1, 1945, fe'm cefais fy hun yng Nghymru drachefn, ond methais â mynd allan am dri mis.

Yr oeddwn mewn bwthyn bychan mewn mangre anghyfannedd o fewn milltir i'r pentref agosaf. Yno y mae eglwys a thri o gapeli. Un nos Sul ym mis Ebrill euthum gyda chwaer i'w chapel hi—"Calvinistic Methodist" yn fy nyddiau gynt ond "Presbyteraidd" yn awr. Yr oeddwn yno yn gynnar: canfum ddarpariadau cymundeb.

"Aros di yma," meddwn wrth fy chwaer, "ac af innau am dipyn o dro, neu efallai i'r capel Wesla"—nid yr hen gapel yn y llan, y gwyddwn i amdano yn nyddiau mebyd, eithr capel "newydd" yn uwch i fyny yn nes at y nefoedd.

Tu allan i'r capel Methodistaidd, gwelais weinidog yn siarad â rhyw ŵr bonheddig.

"Maddeuwch i mi," meddwn yn Saesneg. "Euthum yn gyntaf i'r capel arall is i lawr, ond gwelais y byddai yno 'gymundeb,' a deuthum tua'r cysegr hwn. Beth sydd yma heno."

"Y mae cymundeb i fod yma hefyd heno," ebe'r gweinidog. "Ond yn Gymraeg y mae'r gwasanaeth!"

"Mi wn hynny," meddwn innau. "Bûm yma unwaith neu ddwy o'r blaen gyda hen gyfeillion imi yn y fro yma."

"Dowch i mewn, pwy bynnag ydych, a chewch groeso. Ond dywedwch pan nad ydych yn credu yn y cymundeb?"

"Nid awgrymais i mo hynny," meddwn innau. "Ond gwn fod y 'cymundeb' yn golygu rhywbeth tra gwahanol iawn i chwi i'r hyn a olyga i mi."

"Yr ydych yn fy synnu !" meddai'r gweinidog. "Dywedwch beth a phwy ydych ?"

"Nid ydyw fy naliadau ' diwinyddol ' o bwys i neb ond mi fy hun ; ac erbyn hyn nid ydywf innau yn neb o gwbl. Hen bererin unig yma ar dro wyf, mewn anial dir, wedi colli pawb a phopeth oddieithr fy enaid a'm ffydd yn y Tad nefol a threfn ei Rag-luniaeth."

"Pwy ar y ddaear ydych chwi ?"

"Yn gyntaf, dywedwch pwy ydych *chwi* ? Gwn, wrth gwrs, mai gweinidog Methodistaidd ydych, ond beth yw eich enw ?"

"Fy enw yw Charles Jones."

"Caniatewch imi ysgwyd llaw â chwi. Da gan fy nghalon gwrdd â chwi. Clywais sôn amdanoch, a gwelais eich enw laweroedd o weithiau."

"Ym mha le, felly ?"

"Yn y *Gwyliedydd Newydd.*"

"Bobol annwyl ! Cymro ydych chwi, ynteu ?"

"Ie," meddwn, "rhyw fath o Gymro ydwyf."

"Ac yn darllen y *Gwyliedydd Newydd* ?"

"Arferwn â'i ddarllen yn gyson o'r flwyddyn 1937—wedi imi ail-ddysgu iaith fy mam—hyd ddiwedd y llynedd. A dywedyd y gwir, yr oeddwn ar ôl hir flynyddoedd mewn alltudiaeth ymron wedi llwyr anghofio'r hen iaith hyd oni ddaeth i'm llaw lyfr gwych Tecwyn Evans. Astudiais hwnnw'n ddyfal, ac er fy mod wedi ei ddarllen ddengwaith a mwy nid ydwyf wedi ei feistroli eto. Er hynny rywbryd tua dechrau 1937 anturiais anfon hanesyn i Olygydd y *Gwyliedydd Newydd.* Er fy mawr syndod, argraffwyd yr hanesyn. Ac o hynny allan hyd tua blwyddyn yn ôl rhaid fy mod wedi cyfrannu llawer o golofnau i bapur wythnosol Cymraeg eich enwad !"

"Syndod mwy fyth imi ! Pwy ydych chwi ? Beth yw eich enw ? Hysbyswch fi ar unwaith 'rwan."

"Fy enw yn y *Gwyliedydd Newydd* bob amser . . ."

A dyna Charles Jones yn chwerthin yn llawen ac yn cydio yn fy nwy law â'i ddwy law yntau deirgwaith, a dywedyd, "Dowch i mewn, ac eistedd efo'r diaconiaid yn y sêt fawr !"

"Diolch o galon ichwi. Ond gwell gennyf eistedd yn ymyl y drws, er mwyn cael mynd allan ar frys os teimlaf felly."

Ac yn ymyl y drws yr eisteddais. Mwynheais y gwasanaeth yn fawr. Y cwbl o'r emynau, oddieithr un emyn yn ystod y cymundeb, yn gyfryw ag y medrai unrhyw heretic fel minnau eu canu ; y bregeth yn amserol, ymarferol, a chysurlon dros ben—wrth fodd yr hen grwydryn unig o'i dechrau i'w diwedd. Ond yr hyn a'm syfrdannodd, cyn diweddu'r gwasanaeth, oedd clywed y gweinidog yn croesawu'r "dieithryn yn eu plith !" Ychwanegodd ei fod wedi

darllen nid yn unig fy 'sgrifau yn y *Gwyliedydd Newydd* ond hefyd fy llyfrau Cymraeg ! "Dichon y cawn air ganddo ?"

Codais ar fy nhraed yn fy sedd wrth y drws. Ond ni allwn lefaru gair ! Ofnwn mai wylo'n hidl a wnawn. Eisteddais i lawr. Yr oedd distawrwydd llethol. Ond o rywle daeth nerth. Ar fy nhraed a mi drachefn ymron mewn amrantiad, a llwyddais—er syndod i mi fy hun—i ddiolch i'r gweinidog—a hynny yn Gymraeg —am ei garedigrwydd, ac i ddatgan fy ngwerthfawrogiad o'r ysbryd brawdgarol a amlygid yn y cysegr Methodistaidd hwnnw tuag at hen grwydryn nad yw'r ddiwinyddiaeth uniongred ddim ond sectyddiaeth noeth iddo ers trigain mlynedd bellach.

O leiaf ymhlith y Methodistiaid Wesleaidd, y mae pethau wedi newid yn rhyfeddol yng Nghymru er pan oeddwn i'n hogyn. Ond aeth degau lawer o flynyddoedd heibio er hynny ! Nid byth yr anghofiaf frawdgarwch a mawrfrydigrwydd y Parchedig Charles Jones, a'r ymgom ddifyr a gawsom gyda'n gilydd ar y ffordd tua thre yr hwyrddydd braf hwnnw yng ngwanwyn 1945.

Yr Achos Undodaidd yn Aberystwyth.

Gan Dr. D. J. Davies, B.A.

(*Parhad o Rifyn Medi, tud.* 124).

Ond i ddychwelyd at lygad y ffynnon y tarddodd y mudiad Undodaidd yma ohoni. A mi, wedi graddio yn 1898 ac wedi bod allan yn y byd am ryw dair blynedd, dychwelais i'r Coleg tua dechrau mis Hydref 1901 i ddilyn cwrs arall o astudiaeth. Yn y cyfamser 'roedd rhagolygon sefydlu achos Undodaidd yma wedi newid cryn dipyn er gwell. Yn ystod y coleg-dymor 1897—98 nid oedd yn y Coleg, hyd y gwn i, ond dau neu dri o Undodiaid proffesedig ; sef fy nghyfaill Watcyn o Lanbedr-pont-Steffan a minnau ac efallai un o ferched y diweddar Barch. Robert Spears, gweinidog eglwys Undodaidd Highgate, Llundain, a oedd yn amddifad iawn o sel a brwdfrydedd ei thad dros yr achos Undodaidd. Eithr yn ystod y coleg-dymor 1901—02 yr oedd yma o leiaf chwech o Undodiaid proffesedig a'r rhai hynny bron heb eithriad hefyd yn Undodiaid selog. Ond odid y bydd o ddiddordeb i rai o'n darllenwyr gael gwybod pwy oeddynt, felly dyma eu henwau ac enw eu cartrefi : Miss Lena Jones, merch y diweddar Barch. R. J. Jones, M.A., Aberdâr ; John Park Davies, Cilgwyn-bach, Llandysul ; John Owen James, mab y diweddar Barch. William James, B.A., Llandysul ; Abel Edwin Jones, mab Llechwedd, Llanwenog, ac wedi hynny athro mewn amaethyddiaeth yn y Coleg yma ; David

Jones, mab Caerau, Llanwenog, a fu wedi hynny yn athro yn un o ynysoedd yr Indies Gorllewinol ac wedi hynny eto yn offeiriad yn Eglwys Loegr ; a'r ysgrifennydd. Heblaw hyn, daeth yma rywbryd rhwng 1898 a 1901 deulu a fu yn anad neb yn gyfrifol am gychwyn y mudiad Undodaidd yn Aberystwyth yn 1902, sef teulu yr "Hen Broffesor," fel y'i gelwid, efe a'i fab, Parch. George Eyre Evans a'i ferch, Miss Catherine Powell Evans. Dyna'r sefyllfa pan ddychwelais i'r Coleg ym mis Hydref, 1901.

O dan yr amgylchiadau hyn mae'n bosibl y bydd rhywrai yn disgwyl clywed ein bod wedi dechrau cynnal gwasanaethau Undodaidd yn y dref yn fuan wedi dechrau neu, o leiaf, cyn diwedd tymor cyntaf y Coleg y flwyddyn honno, ond rhaid cofio nad oeddem oll yn gyfarwydd â'n gilydd nac hyd yn oed yn adnabod ein gilydd rai o honom ar y dechrau ac iddi felly gymryd tipyn o amser cyn dechrau symud yn y mater. Daeth y symudiad cyntaf oddiwrth y Parch. G. Eyre Evans, a alwodd rai ohonom ynghyd i'w lyfrgell fechan yn Binswood, Heol Llanbadarn nos Sul, 23 Mawrth, 1902 i'r diben o ystyried y priodoldeb a'r posibilrwydd o gynnal gwasanaethau Undodaidd yma. Penderfynwyd yn unfrydol ein bod i gael wyth gwasanaeth ar nosau Sul yn ystod tymor canlynol y Coleg gan ddechrau nos Sul, 20 Ebrill, ac fod Mr. Evans i gymryd y gwasanaeth cyntaf. Trefnwyd hefyd pwy oedd i gymryd y gwasanaethau eraill, a dyma sut yr ymddengys y rhaglen am y tymor ar y cerdyn bychan a argraffwyd i'w hysbysebu :

BINSWOOD-LLANBADARN ROAD, ABERYSTWYTH, 1902.

DIVINE SERVICE, free from doctrinal tests, will be held here during Term, at 7.30 p.m.

Sunday, April 20—Rev. G. Eyre Evans.
Sunday, April 27—J. Park Davies (Welsh) Communion Service.
Sunday, May 4—Daniel J. Davies.
Sunday, May 11, T. H. Davies.
Sunday, May 18—Rev. J. Davies, Alltyplacca (Welsh).
Sunday, May 25—J. Park Davies.
Sunday, June 1—Daniel J. Davies (Welsh).
Sunday, June 8—Rev. G. Eyre Evans, Communion Service.

SALVE.

Credaf y bydd ein darllenwyr yn gwybod rhyw gymaint am y personau uchod oddieithr efallai T. Huws Davies. Felly dyma air neu ddau amdano ef. Brodor oedd o ardal Tregaron (Penuwch, 'rwy'n meddwl) ac ar y pryd yn fyfyriwr yn y Coleg yma yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, ond tebyg na allasai dderbyn eu Cyffes Ffydd ac felly nid aeth i'r weinidogaeth. Yn Llundain y treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd a daeth yn lled enwog yn ei flynyddoedd olaf fel ysgrifennydd i Ddirprwywyr yr Eglwys yng Nghymru.

Wedi'r Drin, Ble?

(PAPUR A DDARLLENWYD YNG NGHYRDDAU CHWARTER Y GYMDEITHAS YN ABERDAR, HYDREF 1945, GAN T.O.W.)

Y MAE'N dda gennyf ddod am dro i'r Hen Dy Cwrdd, ond trist yw sylwi fod cynnifer o hen wynebau ar goll. Nid yw'r Hen Dy Cwrdd yr un hebddynt ond y mae'u coffa yn wynfydedig. Y mae yna hen ddywediad, *ymhob pen y mae piniwn*, ac yr oedd piniwn ymhen rhywun yma cyn i chwi ofyn i mi siarad yn hytrach na phregethu—fe roisoch ragor o *libert* i mi, chwedl sir Aberteifi. Digon tebig y disgwyliech i mi ddweyd fy meddwl yn blaen—ac y mae galw am siarad plaen heddiw. Y mae'r byd yn anniben ben bwy i gilydd, ac ond odid y bydd y blynyddoedd nesaf yma yn fwy annodd i'w byw nag hyd yn oed blynyddoedd y rhyfel. Nid gwaith rhwydd yw dod yn ôl i'r hen lwybr wedi colli'r ffordd. Nid gwaith rhwydd ychwaith yw cerdded ymlaen dros diroedd diarffordd. Safwn heddiw ar y groesffordd heb wybod i ba gyfeiriad i droi, a gofynnwn *wedi'r drin, Ble*? Yn ystod y rhyfel pan oedd Rooseveldt am roi newydd neu am roi ei farn heb fynnu iddi gael ei thadogi iddo, dywedid ei fod yn aiarad *off the record*. Dyna ond odid, a fynnech chwithau—barn onest, fentrus a didderbynwyneb, a honno *off the record*.

Pan ddaeth eich gwahoddiad imi yr own yn darllen llyfryn bychan *Where do we go from here*? a theitl y llyfryn gyda llaw yw fy nhestun i. Yr ym ar groesffordd dau gyfnod—ac y mae yna ddigwyddiadau mawr wedi rhannu amser yn gyfnodau. Am a wn i, yr oedd yr Iddew am sôn am y cyfnod cyn y dilyw a'r cyfnod wedi'r dilyw . . . Yr ym ninnau wedi rhannu amser i'r cyfnod cyn Crist a'r cyfnod wedi Crist, ond credaf y bydd gwyddor a gwareiddiad yn sôn yn gynnil bach am y cyfnod cyn yr Atomic bomb a'r cyfnod wedyn. Y mae'r *Atomic bomb* wedi rhoi full stop ar derfyn cyfnod, ac yr ym ninnau yn aros ar ddechrau cyfnod newydd gan ofyn *Wedi'r Drin, Ble* Nid oes gan odid neb ohonom weledigaeth glir. Y mae yr atomic bomb wedi chwalu nid tre neu ddwy yn Japan, ond y mae wedi chwalu hen syniadau rhyngwladwriaethol, economaidd a chrefyddol. Yr ym fel pe taem yn dechreu byd o'r newydd. Fe ddisgwyl llawer un am fynd yn ôl i'r man y'i gadawsom hi yn 1939 yn wleidyddol, yn economaidd ac yn grefyddol. Bwriwch rhyw hen ddymuniad penllwyd felly dros go. Na ato Duw i rywbeth felly ddigwydd. I mi, dyna fuasai trajedy mwyaf y Rhyfel, a chredaf bod llais Duw yn dweyd wrthom am *Gerdded Rhagom*. Ni ddwedaf y bydd y dyddiau sydd yn dod yn ddyddiau esmwythach a thawelach; na, hwyrach y byddant yn ddyddiau caletach a mwy poenus—ond cofier nid gwewyr marw hen gyfnod a deimlwn, ond poenau geni a

gwayw tyfiant dynoliaeth fwy a gwell o lawer iawn. Nid anniddorol fydd ceisio codi cwr y llen, ceisio treiddio trwy'r gwyll a darlunio beth sydd yn ein haros yn ystod y dyddiau sydd yn dod, a gan fy mod innau ar y clawdd ffin—heb falio dim y naill ffordd na'r llall, gallaf ddweyd fy meddwl yn glir, a chwithau yn cofio fy mod yn siarad *off the record.*

Pwy noson darllenwn o'r newydd *Daith y Pererin* gan John Bunyan, ac fe gofiwch fod *Cristion* ar y daith o *Ddinas Dinystr* i Fynydd Seion, ac y mae *ewyllys da* yn ei gyfeirio i *Dy y Lladmerydd—The House of the Interpreter* ; ac yno fe wêl lawer peth—llun ar y mur, ystafell ddwstllyd, dau blentyn bach, yna rhyw un yn bwrw dŵr ar y tân er ceisio'i ddiffodd heb weld fod rhywun arall yn porthi'r tân ag olew. Y mae'r *Lladmerydd* yn esbonio pob peth gan roi gafael sicrach i Gristion ar wirioneddau mawr y bywyd. Yr ym ninnau ar y daith o *Ddinas Dinystr* gyda'i Belsen a'i bomiau—gyda'i châs a'i chreulonder—i ryw gyfnod gwell, ac y mae'n werth i ninnau aros yn *Nhy y Lladmerydd* er gofyn iddo am esboniad ar a welsom yn ystod y chwe mlynedd diwethaf yma—esboniad ar bethau y sydd tuhwnt i amgyffred dyn. Y mae yn werth aros, chwedl Bunyan, *yn nhy y Lladmerydd*, a cheisio deall digwyddiadau mawr hanes, er osgoi yr un camsyniadau yn y dyfodol. Gynt credem y doi *datblygiad* a dynoliaeth yn blant Duw ar ei gwaethaf, ond y mae haneswyr heddiw yn dweyd "mai peth sy'n tyfu ac yn blodeuo, yn dwyn ffrwyth ac yna'n gwywo yw gwareiddiad—fod hynyna wedi digwydd yn hanes Groeg a Rhufain, Yr Aifft a Babilon, a mynnai Spengler fod gwareiddiad y gorllewin yn dechreu tynnu ei ben tano. Tybed fod y Gorllewin wedi cael ailanadl ?

Sôn y sydd ymhobman am ail drefnu, a chredwn ond ail drefnu tipyn y daw popeth yn dda. Ofnaf nad yw rhyw gymhennu felly ar yr annibendod yn ddigon. Y mae eisiau *rhyw amcan* newydd. Fe ddywedai rhywun ' nad oes ar Uffern ond eisiau ei threfnu.' Dysgasom yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma i *amddiffyn* yr hen. Yr ym fel y Ffrancod wedi dysgu byw yn rhyw *Maginot Line*, a chredent eu bod yn ddiogel, ond ni bu *ffars* fwy na'r maginot line. Yr ym ninnau ymhob cylch o fywyd yn *playing for safety.* Y mae eisiau *pobl saff* i lanw pob swydd, er mwyn i bob grym a menter fod wedi marw ynddynt. Yr wyf i fy hun yn berffaith argyhoeddedig mai cyfnod y bobl ifainc y sydd yn agor o'n blaenau, y bobol ifainc a gadwodd Brydain a gwareiddiad yn yr awyr, pobol ifainc a fu'n ymladd a marw, ac os yw gwareiddiad, a bywyd a chrefydd i fyw yna y mae yn rhaid cael menter a gweledigaeth pobol ifainc i'w cadw. Fe ddwedai rhywun "To none of us does the future belong, and therefore we defend the past." Gyfeillion, os ydyw Prydain a gwareiddiad, os ydyw crefydd rydd a blaenfynediad i fyw, rhaid i ni geisio meddiannu'r dyfodol. Nid amddiffyn y gorffennol sydd eisiau ond sugno nerth o oreu'r gorffennol er mwyn cael ffydd a

hyder i gerdded ymlaen a sefydlu ar diroedd y dyfodol *Deyrnas Dduw*. Y mae rhyw sŵn ym mrig y morwydd. Nid y sŵn sydd yn fy nhrwblu i, ond ba sŵn ydyw? Ai rhuthrwynt Tachwedd yn darogan gaeaf, ynteu gwyntoedd Mawrth ac Ebrill y sydd ar waethaf eu grym yn addo heulwen Mehefin maes o law.

Wedi'r drin, ble?

Fe gofiwn bob yr un y blynyddoedd hynny cyn y rhyfel diwethaf, ac i mi ni bu cyfnod mwy cwsg a diffrwyth yn hanes ein gwlad, ys dwedai rhywun: "Thoughts of a dry brain in a dry season."

Yr oedd gwerinoedd Ewrop wedi colli'u menter a'u gweledigaeth. Dyna ydoedd *Ysbryd Munich*; yr hen yn fodlon dioddef popeth ond iddynt gael llonyddwch a chadw eu cyfoeth heb feddwl fod eu hysbryd di-asgwrn-cefn ac yn llawn gwanc a hunan yn paratoi'r ffordd i'r ifanc gerdded i Uffern er cadw y pethau goreu ym mywyd gwerin. Ni chredaf i am foment fod ein bechgyn annwyl wedi marw dros ymerodraeth na ffynhonnau olew na dim tebig i hynyny. Y mae'n werth troi i *Dy y Lladmerydd* er gofyn am esboniad. Y mae'n rhaid gwybod pam. Ni ddwedaf y gwyddai milwr y rheswm pam: hwyrach na wyddai, ond i lawr yng ngwaelod ei enaid, ymhlith hiraeth a dyheadau ei enaid, ymhlith rhyw bethau na fedrai eu rhoi mewn geiriau yr oedd ganddo syniad am a garai gael, am yr hyn yr oedd yn fodlon marw drosto. Os ydyw *Eglwys y Duw byw* yn *Lladmerydd*, yna dylasai esbonio yr anesboniadwy—dylasai fynegi yn glir a chroyw ddyhead a hiraeth calon dyn, dylasai ddangos yr unig bethau mewn bywyd y sydd yn werth byw a marw drostynt. Rhyw dybio y byddaf i nad yw'r Eglwys wedi llwyddo i ddangos fod pethau goreu bywyd y bechgyn yr un a'r pethau goreu y sonia hi amdanynt. Y mae'r milwr yn gwybod beth yw peidio gadael ffrind lawr, rhoi bywyd dros gyfaill, dioddef dros gâr a chymydog,—ie, maddeu i elyn a rhoi help llaw i bobun i godi o'r ffos. Y pwynt yw na wêl mai dyma hanfodion crefydd. Fe gred nad oes a fynno ei droion da ef mewn bywyd a chrefydd. Nid wyf yn sicr nad yr Eglwys y sydd wedi datgysylltu *Crefydd a Bywyd*. Y mae'r do ifanc wedi'i bedyddio a thân; wedi bod yn y drin ac y mae'n gofyn *Wedi'r Drin, Ble?*

Y mae dau rhyfel yng nghof pobun ohonom yn ormod, ac nid oes dim amdani ond ceisio gweld sut y medrir codi byd a dyn newydd heb fod yn y naill na'r llall duedd at ryfel. Nid oes raid eich adgofio nad oes fawr o gytuno ymhlith y gwledydd heddiw, ac am a wn i, na welir yr un duedd at *Power Politics* eto. O weld annibendod byd y mae tuedd dweyd arnaf gyda Marc Connolly yn Green Pastures, "To be God is not a bed of roses." Credaf y buasem yn ôl yn chwarae a thân eto, onibai fod yr *Atomic Bomb* wedi creu dychryn ym meddwl a chalon mamau'r byd. Credaf na bydd ein pobol ifainc yn barod i ryfela a gwybod y medr hanner dwsin o atomic bombs droi trefi cyfain yn garnau o ludw. Y mae *rhaid felly*

arnom i ddewis llwybr nad arweinia i ryfel, ond sylwch *ofn* ac nid cariad sydd ynghalon gwerinoedd byd. Y mae gan Chesterton frawddeg *whimiscal*, ond y mae'n cynnwys gwirionedd mawr, a dyma hi :—"*If soapmaking is bad for brotherhood, it is soapmaking that must go, not brotherhood.*"

Sylwch ar yr ergyd. Y mae Chesterton yn awgrymu beth bynnag y sydd yn ddrwg i *Frawdoliaeth Gyffredinol* y mae yn rhaid iddo fynd—ac os yw ymerodraeth a *thrade* a balchder cenedl—ie, unpeth yn milwrio yn erbyn brawdoliaeth y gwledydd a gwerinoedd y mae yn rhaid cael gwared arnynt. Y mae'n rhaid clirio'r ffordd i *Frawdoliaeth*, ac y mae brys am wneud rhag i'r Atomic bomb ein hurddio o'r ffordd yng nghynt na phryd.

Fe gofiaf ddarllen yn un o lyfrau Max Muller, onid wyf yn cam gofio, mai yr unig beth sy'n gwahaniaethu dyn oddiwrth *Dduw* yw ei *selfishness*— a dyna neges *Eglwys y Duw Byw* ydyw ceisio symud yr ofn a'r *selfishness* o galon dyn, a chawn wedyn *Frawdoliaeth dyn.* Fe ddwedai rhywun mai'n perigl ni yw ceisio sefydlu *a civilized but non-Christian mentality* : a dyweder a fynner y mae byd o wahaniaeth rhwng meddwl gwareiddiedig a meddwl Cristionogol. Y mae rhyw wres mewnol—rhyw gynhesrwydd ysbrydol yn y meddwl Cristionogol y sydd yn clymu dyn a dyn mewn cariad. Fe gredem fel y doi'r byd yn fwy dysgedig, y doi yn fyd gwell : y mae dysg fel plwmp ar y ffynnon yn dwyn i'r wyneb y sydd yn y ffynnon, ac nid dim ond y dwr gloyw. Felly mewn dyn. Y mae yn dwyn y sydd mewn dyn i'r wyneb, ac nid yw rhyfel ond cyfleu i ddyn o'r duedd honno i ddangos ei ddiawlineb. Dyma ddwedai rhywun :—We die of cold and not of darkness. It is not the night but the frost that kills.

Fe garwn i, gyfeillion, weld *Crefydd a Christ* yn eistedd gyda'r *Big Three*, ie, fel yn y *Ffwrn Dân* slawer dydd, gweld yno bedwar a dull y pedwerydd yn debig i *Fab Duw*. Ni wn i, ond fe garwn i weld *Unol Dalaethau Ewrop* ar gynllun *Unol Dalaethau yr Amerig*—pob gwlad yn llywodraethu ei bywyd ei hun, ond ymhatrwm cyffredin yr Unol dalaethau, pob gwlad yn helpu'r llall, a phob gwlad yn gwybod na fedrai un ddioddef heb ddwyn dioddef ar y lleill i gyd, ac o dipyn i beth fe gaem hwyrach Unol Dalaethau'r byd a phobun, y du a'r gwyn ei groen, y caeth a'r rhydd, y tlawd a'r cyfoethog yn gymrodyr yn yr un Frawdoliaeth ac ysbryd Crist yn llanw pob calon. Dyna i mi yr unig beth a fedrai gyfreithloni y lladd a'r dioddef arswydol. Ddoe darllenwn *Bileri Cymdeithas* gan Ibsen, ac y mae Lona yn cael y gair olaf, a dyma a ddywed : "No, my friend, the spirit of truth and the spirit of Freedom, they are the Pillars of Society". Gobeithiaf y gosodir y rhain fel *Pileri Cymdeithas Newydd* wedi'r drin, ac yna fe ddaw gwerinoedd drwy'r gwaed a'r tân yn ysbryd Crist yn agos at Dduw.

Ynghanol byd masnach a thrafnidiaeth, y mae'n beryglus sôn am fywyd economaidd, ac o bulpud o bobman yn y byd. Cofiaf am

rywun yn rhoi cyngor i bregethwr ifanc. "Pan fyddoch yn pregethu ym Morgannwg, meddai, soniwch am y mor a'r wlad, a phan ar lan y mor soniwch am fasnach a'r glofeydd." Yr oedd yn gyngor cyfrwys o leiaf, a hwyrach y buasai yn fwy diogel i minnau i sôn am bob byd yn hytrach na'r byd economaidd yma. Hwyrach, ond yr wyf yn siarad *off the record*. Yn gam neu gymwys, ysgarmes am olud oedd bywyd economaidd y gwledydd, *and Private Profit motive was the Lynch pin*. Nid wyf yn cofio'r gair Cymraeg am *Lynch pin*, ond fe ŵyr pob un ohonoch beth ydyw—y darn bach o haearn sy'n atal yr olwyn i ddod oddi wrth yr ecstri. O golli'r lynch pin fe ä'r cert yn yfflon oddiwrth ei gilydd, ac awgrymir o golli yr awydd am broffit preifat mewn masnach fe ä'n bywyd economaidd oddiar yr olwynion. O ddarllen hanes bywyd economaidd y wlad drwy'r blynyddoedd ac o gredu'n well mewn dyn, ni chredaf am foment fod y peth yn wir. Dwedaf hyn, os oes lle i ddyn ym mywyd economaidd y wlad, y mae lle i Grist yno hefyd. Y mae yn bryd i grefydd beidio a bod yn *Sleeping Partner*. Y mae eisiau i grefydd ac Eglwys Dduw greu cymdeithas ag iddi *Bwrpas Moesol*. Gwn fod perigl i wladwriaeth gynlluniol i droi yn fiwrocrataidd. Fe gofiaf yn burion am adeg pan estynnwyd coron y pensiwn i'r tlawd, a'r cyfoethog a'r da ei fyd yn dweyd y buasai hynyna yn lladd *ymdrech bersonol*. Dwedir yr un peth heddiw wrth sôn am *Social Security*. Ni wn a ydwyf ar dir peryglus ai peidio. Ond off the record, y gwŷr sydd a digon o'r tu cefn, digon o securiti ganddynt yw'r bobl fwyaf ofnus i roi *Social Security* i neb arall. Nid yw hynyna ond gyda llaw. Ofnir na fedrwn ei fforddio, ac eto yr ym wedi fforddio pymtheg miliwn y dydd ar ryfel, "*To collapse is better than to relapse*." Os ydyw Eglwys Dduw a phob Cristion yn credu'r efengyl—y cawn ni yma y can cymaint ac yn y byd a ddaw fywyd tragwyddol—ie, os byddwn byw ein bywyd ag amcan moesol iddo, yna fe wnawn ni ein gwaith goreu nid er budrelw ond am ein bod ni yn cael pleser a mwynhad o'i wneud, oherwydd fod rhyw amcan moesol gennym mewn bywyd.

Gyfeillion, p'un a ddylasai fod y galw cyntaf ar elw y pyllau glo—llog ar yr arian ynteu cynhaliaeth i'r gwr sydd yn mynd i'w gynnar fedd drwy silicosis? Nid oes angen ateb. Yr wyf i yn ddigon o gredwr yn yr Efengyl ac mewn dyn i gredu y medr Eglwys Dduw roi i werin gwlad weledigaeth ddigyffelyb, ynni creadigol a *staying power* a'i galluoga i weithio nid er mwyn elw ond er mwyn rhyw amcan moesol aruchel.

Fe gofiwch ddarllen am y *Backroom Boys*—y gwyddonwyr hynny a dreuliai oes i ddarganfod arfau lladd, a gwyddoch faint a gostiodd darganfod yr *Atomic Bomb* i'r byd. Onid oes hawl gennym i ofyn i'r llywodraeth roi y backroom boys ar waith er darganfod rhywbeth a fedr wella'r cancer ac anhwyldebau tebig sy'n troi bywyd yn faich a dim yn werth ei fyw. Y mae'r bryd i wyddor gael ei ben yn rhydd i liniaru ing, i wella clefyd ac i godi dynoliaeth, ie, y mae eisiau i

wyddor blygu i Grist, ac i ysbryd Crist dreiddio trwy fasnach a thrwy fywyd economaidd gwlad a thref.

Wedi'r Drin, Ble mewn crefydd ?

Y mae'n ddydd du ar grefydd eglwysig ond nid ar grefydd. Y mae cystal bod yn onest. Os ydyw gwareiddaid yn tyfu, dwyn ffrwyth a marw, tybed nad yw yr un peth yn wir am grefydd eglwysig, oherwydd y mae gwahaniaeth rhwng Churchianity a Christianity. Pwy ŵyr ? Nid yw Cristionogaeth yn dibynnu ar gapel nac eglwys. Hwyrach y bydd yr oes nesaf yn addoli drwy'r radio. Y mae'r mwyafrif yn gwneud felly weithian, ac ys dywedai rhywun, fe fyddwch yn osgoi'r casgliadau felly. Y mae'n awr ddu. Nid oes gennym yr un stiwdent a'i wyneb ar y weinidogaeth. Nid wyf yn eu beio. Ni chredaf y medrwch ddisgwyl i bregethwr aros am ei wynfyd i'r ochr draw. Y mae'n bryd i bob eglwys ddihuno. Yr un yw'r gri ymhob cyfundeb, ond hwyrach eich bod yn teimlo eich bod yn rhoi yn ôl yr herwydd. Efallai. Os felly, yn ôl pob argoel fe gewch beidio rhoi dim ar fyr dro.

Yr ych bob yr un yn gyfarwydd a darllen hanes y *Pathfinders*. Yr oedd gennym yn y rhyfel eroplens ag iddynt waith arbennig. Pan fyddid wedi dewis *Targed* am y nos, nid oedd dim amdani ond anfon y *Pathfinders* yno, eroplens i nodi'r targed, i ollwng *flares* i lawr er marcio'r target i'r bombers. Dyna fel y doid o hyd i'r targed. Fy mhwynt i yw hwn. *Pathfinders* ydym ni, rhyw eroplens yn mynd o flaen y lleill i nodi'r llwybr. Nid gwaith y pathfinders oedd bomio na dim—eu gwaith hwy oedd marcio'r targed. Dyna'n gwaith ninnau. Blaenorwyr ydym, pathfinders, commandos yn gwneud *raid* er gwybod cryfder yr amddiffynfeydd. Nid yw'n mudiad ni ond yn nodi'r targed, a lle yr ym ni heddiw y bydd y lleill yfory : ond gadewch bod y pathfinders yn methu marcio'r targed nos ar ôl nos, yna y maent yn ddiwerth ; y maent yn methu gwneud y gwaith y bwriadwyd iddynt, a hyd y gwelaf i, onid ydym ninnau yn blaenori, onid ydym yn nodi'r targed y dylasai Eglwys y Duw byw ymosod arno nesaf, nid oes amcan i'n mudiad fel *Mudiad Undodaidd*. Nid yw'r menter a'r weledigaeth gynt gennym. Rhyw geisio yr ydym ers llawer dydd i amddiffyn rhyw sefyllfa, ond nid sefyllfa, nid position mohoni ond cyfeiriad, ac fel y dwedai rhywun o ganolbarth Ewrop wrth yr Athro Gordon,—

"An Unitarian is one who has not said his last word." Ie, nid ym wedi dweyd ein gair olaf eto. Y mae gennym rywbeth mwy i'w ddwedyd nag ydym wedi'i ddweyd eto, ond fod atal dweyd arnom bron er dyddiau Gwilym Marles, ac y mae perigl i rywun arall fynd a'r gair o'n genau. Hwyrach y dwedwch nad oes wahaniaeth pwy a'i dwedo ond iddo gael ei ddweyd. Hwyrach, ond nid oes i ninnau wedyn amcan yn y byd fel mudiad Undodaidd wedi i ni beidio a bod yn fudiad. Ni wn beth fydd ein tynged fel mudiad yn y dyddiau nesaf, ond fe garwn ein gweld yn mynd lawr fel ambell

long ryfel—die fighting. Ni chredaf bod y degwm o broffeswyr crefydd yn tywyllu drws lle o addoliad o Galan i Nadolig. Ni ddwedaf eich bod yn waeth dynion o beidio gwneud, ond yr wyf yn sicr nad ydych yn well o'r herwydd. Fe garwn i eto weld pobl yn nesu at allor Duw. Y mae rhywbeth mewn addoli ac awr o weddi i godi ysbryd dyn at Dduw. Yn y cysegr yr ym yn dwyn ein gwerthoedd—our values—gan eu gosod megis gerbron Duw er iddo ef eu cymharu a'r gwerthoedd tragwyddol sydd ynghadw ynddo ef ei hunan. Y mae dyn mewn cymundeb a Duw yn cael gwerthoedd newydd i'w enaid, ac mewn ffydd a gobaith y mae'n gofyn am help Duw i droi'r gwerthoedd dwyfol yn werthoedd yn ei fywyd bob dydd, a daw gan ei bwyll i weld mai yr un gwerthoedd yw gwerthoedd Duw a gwerthoedd bach ei enaid ef ei hunan, mai gwr Duw yw'r gwr sydd yn defnyddio mwy a mwy o werthoedd Duw yn safonau bywyd dyn. Y perigl yw i ddyn wrth grwydro o'r hen lwybrau golli awydd am gwmni Duw—ie, wrth daflu'r stên hen ffasiwn naill ochr iddo golli'r dŵr hefyd. Hwyrach y gwelir cau pob capel, a phob pulpud yn wag, pwy wyr ? Ond fe gyfyd Duw e broffwydi i arwain a blaenori gwerin. Nid oes gennyf weledigaeth glir, ond fe garwn weld Eglwys Dduw o bob enwad yn anghofio ei mân wahaniaethau a'i chwerylon dibwys—ac yn sefyll ar y groesffordd gan ddangos i werinoedd byd y llwybr tuag adref. Y mae problemau dirif a phwysig wedi'u gadael gan y rhyfel heb eu solfio—problemau na fedrir mo'u solfio ond yn ysbryd Crist a chyda cwaliti enaid a gwyd o lefelau dyfnaf bodolaeth lle y cwrdd y dynol a'r dwyfol a'i gilydd. Ar faes gwleidyddiaeth byd wrth geisio llunio heddwch y gwledydd y mae eisiau Crist arnom, a phe darllenech yr Atlantic Charter a'i gymheiriaid fe welech eu bod wedi ennill calon gwerin am y credir bod rhyw lun o gyfiawnder ac ysbryd Crist ynddynt.

Credaf yn bendifaddeu y bydd raid i ni estyn llaw i'r Almaen ar ein gwaethaf rhag i chwerwder enaid, newyn a phlâ hau hadau dial am oesau ; ie, nid beth a deilynga'r Almaen mo'r cwestiwn, ond beth a hawlia Cyfiawnder, a beth a ofyn Crist gennym. Gyfeillion, wedi'r drin, wedi ein cadw rhag a welodd ac a ddioddefodd eraill yn Ewrop a'r Dwyrain pell, dangosed Eglwys Dduw mai Un yw Duw, ac felly *Un* yw dynoliaeth hefyd, ac y dylasem gael Unol dalaethau'r Byd : dangosed mai pethau Duw yw'r pethau a grafwn at ei gilydd, ac nad oes un gwerth parhaol ynddynt ; pethau i'w gadael ar ôl ydynt ac y dylasai bywyd economaidd y wlad gael ei ynni nid o'r gwanc am elw, ond o amcan moesol uchel : dangosed mai brodyr a chwiorydd ydym—plant yr un Tad, yn ceisio byw Crist ac nid ei broffesu yn unig, ac mai amcan ein bodolaeth yw prifio dyn newydd er gogoniant i Dduw : ac os ydym ni, ddyrnaid bach fel yr ym yn deilwng o'r graig o'r hon y'n naddwyd, yna byddwn fel y *Pathfinders* yn nodi'r targed yfory,—heddwch cyfiawn drwy'r byd, bywyd

economaidd Cristionogol, a Chrefydd Crist yn Eglwys y Duw Byw—yn fywyd ac nid yn broffes ynghalon pawb o bobl y byd. Y mae'r targed yn werth i'w farcio, ac awn ymlaen yn wrol yn nerth Duw gan gofio geiriau Shakespeare,—

"Our doubts are traitors,
and make us lose the good we oft might win
By fearing to attempt."

Wedi'r drin, ble? *Yn ol at Dduw yn Ysbryd Crist.*

Arholiad yr Ysgol Sul, 1945.

Safon III (*Ysgrifenedig*).

Enillwyr y Gwobrwyon :

Margaret Olwen Thomas (Llandysul) ; Dilys Davies (Llandysul) ; J. Derrick Davies (Llandysul) ; Hywel Jenkins (Capel y Bryn) ; Kathleen Tuppenny (Trebanos) ; Lilian Edwards (Trebanos).

Tystysgrifau :

Catherine Anne Evans (Bwlchyfadfa) ; Ivy Mead (Capel y Bryn) ; Glanville Williams (Llwynrhydowen) ; Arthur Roderick (Cribyn) ; Gwynne Morgan (Trebanos).

Safon II (*Ysgrifenedig*).

Enillwyr y Gwobrwyon :

Mary Williams (Trebanos) ; Margaret Rogers (Bwlchyfadfa) ; Eira Gwen Evans (Llandysul) ; Milly Roderick (Cribyn) ; Twelly Davies (Llandysul) ; Eirion Phillips (Trebanos).

Tystysgrifau :

Elwyn Evans (Bwlchyfadfa) ; Harold Rogers (Bwlchyfadfa) ; James G. Jones (Llwynrhydowen) ; Nel Davies (Cribyn) ; Lewis Hefin Davies (Bwlchyfadfa) ; Donald Davies (Llandysul) ; Margaret Wilson (Llwynrhydowen) ; Edgar Jones (Llwynrhydowen) ; Roy Howell Bebb (Llwynrhydowen) ; Brenda Sebensual (Llwynrhydowen).

(*Ar Lafar*).

Ivor Thomas, Peter Davies (Llandysul) ; Byron Morgan Hopkin, Mair Jones (Trebanos).

Safon I (*Ar Lafar*).

Y Graig, Llandysul : David Jones.

Llwynrhydowen : Eluned Williams, Sheila Herdon, Monica Smith, Betty Jones, Cynthia Evans, Wynn Evans, Tommy Jones, Tom Jones, George Davies, Marion Dudley, Betty Dudley.

Ciliau : Hilary Jonathan, Nora Cochrane.

Capel y Bryn : Anne Davies, Irene Jones, Tom Evans, Dilwen Davies, Betty Morgans, Nell Davies, Eric Jones.

Bwlchyfadfa : Betty Evans, Barbara Jean Warlow, Rachel Nance Davies, Sarah Mavis Davies.

Brondeifi : David John Ieuan Evans, Vernon Jones, Alan Terry Pocock, David Glyn Evans, David Trevor Evans, John Alun Jones, Ceris Jones.

Trebanos : Maureen Jenkins, Anne Cope Thomas, Beverley May Thomas, Anne Williams, David Lawrence Bowen, Lynn Bowen, Vivian Bowen, Geoffrey Evans, Gareth Williams, John Llewelyn Williams, Meirion Williams.

Caeronnen : Vera Jones.

Cribyn : Myra Jones, Jane Davies, Cissy Evans, Betty Howells, Iris Williams, Mair Davies, Morwen Williams, Evan John Davies, Dewi Davies.

Gohebiaeth.

"ATITIWD."

Annwyl Mr. Golygydd,—Diolchaf i'ch gohebydd Cledlyn am ei "eglurhad" —eglurhad nad yw'n egluro braidd ddim o gwbl. Tybiais ar y cyntaf mai rhyw fath ar fwystfil anhysbys i mi ydoedd *atitiwd* : eithr casglaf oddi wrth a ddywaid Cledlyn nad ydyw ddim namyn bwnglerach Dic-Siôn-Dafyddol.

Yn ddiffuant,

Alltud.

Priodasau.

Medi 4, yng Nghapel y Graig, Trebanos DANIEL JOHN WILLIAMS, Ynystawe a BETTY MAY PHILLIPS, Caeismaen, Trebanos, y Parchn. J. D. Jones a Geraint Owen yn gweinyddu.

Dydd Sadwrn, Medi 15, 1945 yng nghapel Brondeifi, Llanbedr gan y Gweinidog gyda chynhorthwy parod y Parch. Daniel Jones, Noddfa, unwyd mewn glân briodas PHYLLIS EMILY EVANS, ail ferch Mr. a Mrs. Idris Evans, Cilgell-isaf, Llanbedr a DAVID DAN JONES, unig fab y Cynghorwr a Mrs. Jones, Gelliddewi-isaf, Pencarreg. Hir oes a dedwyddyd i'r ddeuddyn ifanc.

Medi 26, yng Nghapel y Groes, KENNETH GEORGE RIGBY, Bolton (yn awr yn y fyddin) a BESSIE EVELYN WILLIAMS, Pantyronnen, Llanwnen, y Parch. A. J. Martin yn gweinyddu.

Medi 26, yn Eglwys St. James, Abertawe, DESMOND REED, a JOAN SAUNDERS, 199, Swansea Road, Trebanos, y Parchedig Mr. Henry yn gweinyddu. Yr oedd y Parchedig J. D. Jones hefyd yn bresennol.

Marwgof.

WRTH Gellionnen, ar Fedi 25, daearwyd gweddillion HEZEKIAH DAVIES. Treuliodd y rhan hiraf o'i oes o saith deg a thair o flynyddoedd yn trin y tiroedd sy'n amgylchu'r hen dŷ cwrdd, yn y Gwernllwyn ac yng Ngellionnen Uchaf. Rhyw dair blynedd yn ôl symudodd i fyw yn ffermdy Glyn Coch, wrth droed y mynydd, ac yno bu farw wedi cystudd byr ar Fedi 20. Ni bu ei iechyd yn dda ers mwy na blwyddyn. Yn y gynulleidfa yng Ngellionnen yr oedd yn eithriadol ffyddlon, yn ddiacon, yn godwr canu, yn drysorydd pwyllgor y fynwent. Llanwai'r achos le mawr yn ei fywyd, fel y gwnaeth ym mywyd ei gyndeidiau. Ei unig frawd oedd y diweddar David Davies, Gellionnen, dyn a oedd yn adnabyddus i gylch eang o Undodiaid, ac o'r teulu nid oes ar ôl ond yr un chwaer, Mrs. Elizabeth John, Cefn Ithrim. Dyn tawel, cydwybodol ydoedd Mr. Hezekiah Davies, gweithiwr diwyd, a'i fywyd yn addurn i'w broffes. Daeth tyrfa luosog i'r cynhebrwng. Yr oedd Mr. Davies yn adnabyddus, nid yn unig yng nghylchoedd amaethu Morgannwg ond hefyd yng Ngheredigion, lle y gwelid ef yn fynych ym marchnadoedd Llanybydder a Llanbedr. Yn galaru ar ei ôl y mae ei dri mab (dau ohonynt yn briod), ei chwaer, a chylch helaeth o berthynasau. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchedigion J. D. Jones, Dl. John, a T. G. Phillips.

Nodion yr Eglwysi.

LLWYDDIANT.—Dymunwn longyfarch Mr. W. A. Jones, B.Sc. yn ddiweddar o Aberystwyth, ar gael ohono ei ddewis yn brif drefnydd Clybiau'r Ffermwyr Ieuainc dros Gymru a Lloegr. 'Roedd yn barod yn brif drefnydd y clybiau yma dros Gymru ac yn awr penodwyd ef dros Loegr hefyd. Brawd yw Mr. Jones i'r Dr. R. Ogwyn Jones, M.Sc., o Lundain, ac un o blant Gellionnen. Dymunwn iddo bob llwyddiant a dedwyddwch yn ei swydd newydd.

TREBANOS.—Ar Awst 28 aeth deiliaid yr Ysgol Sul i Borthcawl ar eu gwibdaith flynyddol. Cafwyd amser pleserus.

Ar Fedi 17 bu'r adran o Gynghrair y Gwragedd yn croesawu naw ar hugain o filwyr clwyfedig o'r Emergency Hospital, Treforus i dê. Cyfarfu'r gweinidog a'r cwmni yn nrws yr ysbyty. Treuliasant oriau difyr yn y Neuadd, a darparwyd ar eu cyfer wledd rhagorol.

Ar Fedi 20 mwynhaodd aelodau'r adran eu gwibdaith flynyddol. Aethant eleni i Lansteffan. Cymerasant eu lluniaeth yng Nghaerfyrddin.

Ar Fedi 28 bu Mr. Ronald McGraw, ysgrifennydd y North West Region o'r Young People's League, yn siarad â phobl ieuainc y gynulleidfa. Gwerthfawrogwyd ei sylwadau gan gynulleidfa fywiog. Aelod yng nghapel Dukinfield yw Mr. McGraw, ac hyderir y bydd ei ymweled â ni yn agor i'n pobl ieuainc feysydd eangach i wasanaethu delfrydau'r enwad. Penderfynodd y Cymdeithas Ddiwylliadol yn barod ymuno â'r Young People's League.

ABERYSTWYTH.—Dydd galar i aelodau eglwys fach Heol Newydd oedd Medi 9, canys dyma'r dydd y traddododd y Parch. D. Jacob Davis, B.A. ei bregethau olaf inni fel ein gweinidog. Ni allem adael iddo fynd oddiyma heb ddangos iddo mewn modd sylweddol ein parch a'n cariad tuag ato. Felly ar ôl gwasanaeth y bore cafwyd cwrdd anrhegu pryd y trosglwyddwyd iddo siec ar ran yr aelodau gan gadeirydd y gynulleidfa, Mr. A. T. Grindley. Yna cafwyd anerchiadau byr gan y cadeirydd, Mrs. J. E. Jones, Mr. G Richardson a'r ysgrifennydd, ynghyd a dau o'r ymwelwyr a oedd yno, sef Mr Rowlands, Aberdâr a Mr. Thomas Trebanos, a siaradent yn uchel iawn am Mr. Davis a'i briod. Dechreuasant ar eu gwaith yn eglwys Highland Place, Aberdâr ar Fedi 16, a dymunwn iddynt bob llwyddiant a phob hapusrwydd yn eu maes newydd.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, yng Ngwasg Gomer, Llandysul.